

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL BANC SEILWAITH Y DU

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM), a bod modd cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU ("Y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Cyhoeddwyd creu banc seilwaith y DU ("y Banc") gyntaf gan y Canghellor yn Adolygiad o Wariant 2020. Lanswyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021, ac mae eisoes wedi dechrau gwneud buddsoddiadau.
3. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld ar wefan Senedd y DU: [UK Infrastructure Bank Bill \[HL\] - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)
4. Dim ond y Bil fel y'i cyflwynwyd y mae'r LCM hwn yn ei ystyried. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliannau sy'n ymwneud â chylch gwaith y banc mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i sicrhau bod datganoli'n cael ei barchu, ond hyd yn hyn nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw newidiadau o'r fath eto.

### Amcanion polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil yw sefydlu'r Banc i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol drwy ddarparu mynediad at offerynnau ariannol, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau lleol i alluogi buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yn gweithredu ledled y DU.
6. Cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi Strategaeth Seilwaith Genedlaethol ochr yn ochr â'r Adolygiad o Wariant y DU yn 2021, ac fe amlinellodd gynlluniau i weddnewid seilwaith y DU er mwyn "level up the country, strengthen the Union, and put the UK on the path to net zero emissions by 2050". Yn sail i'r strategaeth hon roedd bwriad i greu Banc Seilwaith y DU i "play a leadership role in supporting private infrastructure projects to help meet the Government's objectives on economic growth, levelling up, and transitioning to net zero".
7. Ym mis March 2021, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi [ddogfen dylunio polisi](#), a gadarnhaodd y byddai gan Fanc Seilwaith y DU gyfanswm o £22 biliwn o gapasiti ariannol i gyflawni ei amcanion. Mae capasiti ariannol y Banc yn cynnwys £12 biliwn o gyfalaf ecwiti a dyledion, a'r gallu i roi £10 biliwn o warantau. Disgwylir i fuddsoddiadau'r banc helpu i ddatgloi dros £40 biliwn o fuddsoddiad cyffredinol.

### Crynodeb o'r Bil

8. Noddir y Bil gan Drysorlys EM.

9. Diben datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil hwn yw gosod Banc Seilwaith y DU ('y Banc') ar sail statudol. Mae'r Banc yn sefydliad annibynnol yn weithredol sydd ym mherchnogaeth lwyr y llywodraeth.

10. Drwy osod y Banc ar sail statudol, mae'r Bil yn ceisio:

- cadarnhau a rhoi grym statudol i amcanion a gweithgareddau'r Banc;
- sicrhau bod y Banc yn sefydliad hirhoedlog;
- creu ffurfiau statudol o dryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer y Banc;
- dileu rhwystrau cyfreithiol sy'n atal y Banc rhag benthycu'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol; a
- rhoi pwerau penodol i'r Trysorlys i roi cymorth ariannol i'r Banc.

## **Egwyddorion Buddsoddi**

11. Mae gan Ddogfen Fframwaith y Banc yr egwyddorion buddsoddi canlynol i lywio pa fuddsoddiadau sydd o fewn cwrpas ei fandad. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi y dylai buddsoddiadau:

- A. helpu i gefnogi amcanion y Banc i sbarduno twf economaidd rhanbarthol a lleol neu gefnogi mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
- B. bod mewn asedau neu rwydweithiau seilwaith, neu mewn technoleg seilwaith newydd. Bydd y Banc yn gweithredu ar draws ystod o sectorau, ond bydd yn blaenoriaethu'n benodol ynni glân, trafnidiaeth, digidol, dŵr a gwastraff;
- C. bwriadu darparu enillion ariannol cadarnhaol, yn unol â fframwaith ariannol y Banc;  
a
- D. disgwylir iddo ddenu cyfalaf preifat sylweddol dros amser.

12. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi bod gan amcanion deul y Banc o fuddsoddi mewn prosiectau i helpu i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, ac o gefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol ledled y DU "huge potential synergies" ond lle mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd bydd y Banc yn "have regard to both of these objectives, both in setting its lending and investment policies and in assessing specific transactions". Mae'n nodi ymhellach: "where an investment is primarily to support economic growth, the Bank will ensure that it does not do significant harm against its climate objective".

13. Fel y nodir ymhellach yn y Ddogfen Fframwaith, ni fydd y Banc yn benthycu nac yn darparu cymorth arall i brosiectau sy'n cynnwys echdynnu, cynhyrchu, cludo a phuro olew crai, nwy naturiol neu lo thermol gydag eithriadau cyfyngedig iawn. Mae'r eithriadau hyn yn cynnwys prosiectau sy'n gwella effeithlonrwydd, iechyd a diogelwch a safonau amgylcheddol (heb gynyddu oes asedau'n sylweddol), ar gyfer Dal a Storio Carbon ('CCS') neu Ddal, Defnyddio a Storio Carbon ('CCUS') lle bydd prosiectau'n lleihau allyriadau'n sylweddol dros oes yr ased, neu'r rhai sy'n cefnogi datgomisiynu asedau tanwydd ffosil presennol. Ni fydd y Banc ychwaith yn cefnogi unrhyw weithfeydd pŵer sy'n llosgi tanwydd ffosil, oni bai eu bod yn rhan o ased cynhyrchu CCS neu CCUS integredig sy'n defnyddio nwy naturiol. Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau dros amser i adlewyrchu newidiadau ym mholisi a safonau rheoleiddio'r llywodraeth.

## **Cefndir cyfreithiol**

14. Sefydlwyd y Banc ym mis Mehefin 2021 fel cwmni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (p46) ac mae ym mherchnogaeth lwyr Trysorlys Ei Mawrhydi.
15. Roedd sefydlu'r Banc yn dibynnu ar allu cyfraith gyffredin y Goron i ffurfio a chefnogi cwmnïau.
16. Mae'r awdurdod seneddol ar gyfer ariannu'r Banc, a'i sefydlu cychwynnol ac arfer gweithgareddau, yn deillio, *inter alia*, o Ddeddf Seilwaith (Cymorth Ariannol) 2012 (c16) ac i'r graddau sy'n berthnasol, adrannau 50 a 51 o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (c27).
17. Mae'r Bil presennol yn ceisio darparu mandad Seneddol mwy penodol a theilwredig yn San Steffan ar gyfer y Banc, sy'n adlewyrchu'r ddwy ystyriaeth gyffredinol sy'n ymwneud â thryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant, yn ogystal â blaenoriaethau polisi presennol Llywodraeth y DU mewn perthynas â buddsoddi mewn seilwaith.
18. Mae'r Bil yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i gwmpas gweithgareddau'r Banc (gan gynnwys y diffiniad o "seilwaith") i ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd llywodraethau'r DU yn y dyfodol yn dymuno addasu cwmpas a ffocws mandad y Banc i adlewyrchu eu blaenoriaethau polisi, a newidiadau posibl yn y farchnad yn y dyfodol ar gyfer seilwaith. Cyflawnir hyn drwy bwerau i wneud deddfwriaeth ddirprwyedig yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fel y nodir mewn perthynas â chymal 2 isod.
19. Mae'r deddfwriaeth ganlynol yn berthnasol o ran cefndir i ddarpariaethau'r Bil:
- a) Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r Banc eisoes yn gwmni cofrestredig ac wedi'i rwymo gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Bydd y Bil presennol yn cydategu darpariaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn Neddf Cwmnïau 2006, er enghraifft ar lywodraethiant a gall, mewn rhai achosion, ategu neu addasu rhwymedigaethau'r Banc o dan y Ddeddf honno (gweler er enghraifft gymalau 2(1), 3(5) a 4 fel y disgrifir isod).
  - b) Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (c27). Pennodd hwn darged sy'n rhwymo mewn cyfraith i'r DU gyrraedd allyriadau carbon sero-net erbyn y flwyddyn 2050 a chyfeirir ato yn y Bil mewn perthynas ag amcan y Banc ar gyfer newid yn yr hinsawdd (gweler y disgrifiad o gymal 2(3) isod).
  - c) Deddf Seilwaith (Cymorth Ariannol) 2012 ac adrannau 50 a 51 o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Fel y nodwyd uchod, dibynnwyd ar y darpariaethau hyn ar gyfer sefydlu a chyllid cychwynnol a gweithgareddau'r Banc. Mae'r Bil presennol yn rhoi diffiniad o seilwaith sydd wedi'i deilwra'n benodol i'r Banc ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau polisi'r Llywodraeth bresennol ar gyfer y Banc. Mae'r diffiniad hwn mewn rhai ffyrdd yn fwy eang, ac mewn ffyrdd eraill yn fwy cul na'r hyn a nodir yn narpariaethau 2012 a 2020 ac mae'n ddarostyngedig i newid yn y dyfodol drwy deddfwriaeth ddirprwyedig fel y nodir uchod.
20. O ran trefniadau benthycy'r Banc i awdurdodau lleol at ddibenion seilwaith, bwriedir i'r Bil ddileu unrhyw rwystrau cyfreithiol i hyn a allai ddeillio o fodolaeth y cod statudol manwl sy'n rheoli benthycy'r sector cyhoeddus i awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau perthnasol wedi'u cynnwys yn Neddf Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus 1875 (c89), adran 4 o Ddeddf Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus 1944 (c16), adrannau 3 i 6 o Ddeddf Benthyciadau Cenedlaethol 1968 (c12), Rheoliadau Benthyciadau Lleol (Gweithdrefn) 1968 (OS 1968/458) a Rheoliadau Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (Ffioedd) 1991 (OS 1991/1539). Byddai'r darpariaethau hyn, o'u darllen gyda'i gilydd, yn debygol o fod yn gynllun statudol

cynhwysfawr sy'n disodli unrhyw allu cyfreithiol amgen neu ychwanegol i wneud benthyciadau'r sector cyhoeddus i'r awdurdodau lleol at ddibenion seilwaith yn unol â phenderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn R v Secretary of State for the Home Department; ex parte Fire Brigades Union [1995] 2 AC 513. Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir, fel y nodir isod mewn perthynas â chymalau 2(4)(a) a 9, nad yw'r athrawiaeth gyfreithiol yn achos Undeb y Brigadau Tân yn atal y Banc rhag rhoi benthyc seilwaith i'r awdurdodau lleol.

21. Mae'r Banc ar ei ffurf bresennol wedi cymryd rhan mewn rhai trafodiadau sy'n ymwneud â benthyc seilwaith i awdurdodau lleol a chwmnïau preifat, ond yr unig brosiect sy'n cael ei ariannu ar hyn o bryd yw fferm solar a yrrir gan y sector preifat yn Ne Cymru. Yn y trafodiadau hyn, deilliodd y benthyciadau perthnasol o broses y Ddeddf Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac fe'u trosglwyddwyd wedyn i'r Banc, gan barchu'r cyfyngiadau cyfreithiol presennol fel y'u hamlinellir uchod.

### **Rhychwant tiriogaethol a chymhwys**

22. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

23. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gymysgedd o gymhwysedd a gedwir yn ôl a chymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae materion sy'n ymwneud ag ynni, rheilffyrdd trawsffiniol a chyfathrebu digidol yn achosion lle mae buddsoddi mewn seilwaith yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl. Mae materion eraill megis rheilffyrdd, porthladdoedd neu bontydd o fewn un wlad neu ardal ddatganoledig yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

24. Mae gan y Bil rychwant i'r DU gyfan (yn unol â chymal 11(1) o'r Bil) a bwriedir i'r Banc fod yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan. Er bod y Banc, sydd ym mherchnogaeth lwy'r Trysorlys EM, yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru, at ddibenion canfod a oes angen cydsyniad ar gyfer y Bil, y cwestiwn y mae ein dadansoddiad yn ei ystyried mewn perthynas â phob cymal o'r Bil yw a allai'r Senedd ddeddfu i wneud yr un peth neu rywbeth tebyg mewn perthynas â Chymru. Felly, y cwestiwn a ystyrir yn y dadansoddiad isod yw a allai'r Senedd ddeddfu gyda rychwant i Gymru a Lloegr a chais gan Gymru i gyflawni'r un peth neu rywbeth tebyg i'r mesurau a nodir yn y Bil hwn, boed hynny drwy sefydlu cwmni yn gyntaf (h.y. yn y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu'r Banc), neu drwy ddefnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes, i ddarparu cymorth ariannol, benthyciadau, cyngor a chymorth etc., gyda'r amcanion o (a) mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a (b) cefnogi twf economaidd, gan gynnwys ar lefel ranbarthol neu leol mewn perthynas â Chymru.

25. Mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru. Mae prif bwnc y Bil, sef darparu cymorth ariannol a chyngor i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (gan gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), yn faes datganoledig o'r gyfraith. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar y darpariaethau canlynol o'r Bil:

Cymalau 1 (Diffinio'r 'Banc') a 10 (Dehongli) ac 11 (Rychwant, cychwyn a theitl byr)

26. Mae cymal 1 yn darparu'r diffiniad o'r 'Banc' at ddibenion y Bil. Mae cymalau 10 ac 11 yn ddarpariaethau safonol yn y Bil ac yn cynnwys dehongli, teitl byr, cychwyn a rhychwant.
27. Mae angen cydsyniad – nid yw'r cymalau hyn o fewn cymhwysedd na'r tu allan i gymhwysedd yn eu rhinwedd eu hunain gan eu bod yn ategol i'r Bil ehangach. Gan fod y Bil ei hun (a phob cymal arall ynddo) yn ymwneud â materion datganoledig, mae'n gywir trin y cymalau hyn fel rhai sydd 'o fewn cymhwysedd' at ddibenion penderfynu a oes angen cydsyniad.

#### Cymal 2 – Amcanion a gweithgareddau

28. Mae hyn yn pennu beth fydd amcanion a gweithgareddau'r Banc. Amcanion y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Gweithgareddau'r Banc yw darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (i gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus ar gyfer prosiectau o'r fath a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill ar gyfer prosiectau o'r fath.
29. Mae angen cydsyniad – gall y Senedd ddeddfu i roi'r swyddogaethau hyn (sydd, fel uchod, yn ymwneud â meysydd cyfreithiol datganoledig) i gorff y mae'n ei greu.

#### Cymal 3 - Blaenoriaethau a chynlluniau strategol

30. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Drysorlys EM baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Banc sicrhau bod ei erthyglau cymdeithasu yn darparu i'r Banc gyhoeddi a gweithredu yn unol â chynlluniau strategol o'r fath.
31. Mae angen cydsyniad - mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaeth o'r fath ar Weinidogion Cymru ac ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu.

#### Cymal 4 – Cyfarwyddydau

32. Mae'r cymal hwn yn darparu y gall Trysorlys EM roi cyfarwyddyd penodol neu gyffredinol i'r Banc ynghylch sut y dylai gyflawni ei amcanion a bod rhaid i'r Banc gydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath.
33. Mae angen cydsyniad - mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaeth o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu.

#### Cymal 5 – Cymorth Ariannol

34. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth i Drysorlys EM ddarparu cymorth ariannol i'r Banc er mwyn helpu'r Banc i gyflawni ei amcanion. Gall Trysorlys EM drefnu i arian gael ei dalu o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol er mwyn galluogi benthyciadau i gael eu gwneud i'r Banc, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a phan fo benthyciad o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r Banc, bydd Trysorlys EM yn pennu cyfradd y llog ar y benthyciad, a thelerau ac amodau eraill.

35. Mae angen cydsyniad - gall y Senedd ddeddfu i roi cymorth ariannol i gorff y mae'n ei greu at ddibenion helpu'r corff y mae'n ei greu i gyflawni ei amcanion (sydd, fel uchod, yn ymwneud â meysydd datganoledig yn y gyfraith). At hynny, drwy anwybyddu ffynhonnell y cronfeydd (y Gronfa Benthyciadau Gwladol) at ddibenion y dadansoddiad, rydym yn dod i'r casgliad y gallai'r Senedd ddeddfu i alluogi benthyciadau i gael eu gwneud yn fwy cyffredinol yn y modd a ragnodir gan y cymal hwn (gan nodi, yn benodol, y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Cymru 2017 sy'n nodi nad yw'r ffaith bod benthycia gan y llywodraeth yn fater a gedwir yn ôl ym mharagraff 15 o Ran 2 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn effeithio ar allu'r Senedd i ddyrannu adnoddau, boed yn rhan o'i gyllideb benodedig neu a godir drwy ei phwerau amrywio trethi).

#### Cymalau 6 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol) a 7 (Cyfarwyddwyr: penodi a deiliadaeth:

36. Mae cymal 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr y Banc gyflwyno i Drysorlys EM gopi o'r cyfrifon a'r adroddiadau y mae'n ofynnol iddynt eu paratoi yn unol ag adran 441 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a gosod copi o'r cyfrifon a'r adroddiadau hynny gerbron Senedd y DU.

37. Mae cymal 7 yn ymdrin â materion llywodraethiant corfforaethol sy'n ymwneud â phenodi a deiliadaeth cyfarwyddwyr ar gyfer y Banc.

38. Mae angen cydsyniad - mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaethau a gofynion llywodraethiant corfforaethol o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu.

#### Cymal 8 – Dyletswyddau'r Banc

39. Mae'r cymal hwn yn darparu y gellir gorfodi unrhyw ddyletswydd a osodir ar y Banc neu ei gyfarwyddwyr gan neu o dan 'y Ddeddf hon' ar gais gan Drysorlys Ei Mawrhydi drwy waharddeb.

40. Mae angen cydsyniad - mae gan y Senedd gymhwysedd i wneud cais am orfodi drwy waharddeb. Rydym yn nodi yn benodol mai rhwymedi sy'n bodoli eisoes yw gwaharddeb ac nad yw'r Bil yn ceisio addasu rhwymedïau sifil (felly nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff 8(1)(c) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gymwys i'r cymal hwn).

#### Cymal 9 - Adolygiadau o effeithiolrwydd ac effaith y Banc

41. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Drysorlys Ei Mawrhydi gynnal adolygiadau o effeithiolrwydd y Banc o ran cyflawni ei amcanion a'i effaith mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a thwf economaidd rhanbarthol a lleol. Ar ôl pob adolygiad, mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn cyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad ac yn gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

42. Mae angen cydsyniad - mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaethau o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu ac ar Weinidogion Cymru ynghylch cyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad a gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

#### **Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

43. Mae Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys wedi darparu ei ddadansoddiad o'r Bil ynghylch angen Llywodraeth y DU am gydsyniad i'r Bil. Mae Ysgrifennydd

Economaidd y Trysorlys yn dadlau bod darpariaethau'r Bil yn ymestyn i'r DU gyfan, ond bod Cymalau 2, 3, 4, 5, 8 ac 11 yn cynnwys darpariaethau a allai ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ym marn Llywodraeth y DU ddim ond y cymalau hyn sy'n sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Dadansoddiad lefel uchel yw hwn sy'n canolbwyntio ar y math o fuddsoddiad posibl gan y Banc ('buddsoddiad mewn meysydd megis rheilffyrdd, porthladdoedd neu bontydd') a lleoliad y buddsoddiad hwnnw ('wedi'i leoli yng Nghymru yn unig').

44. Er bod Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys wedi nodi'n gywir y gallai'r Banc fod yn buddsoddi mewn mathau o seilwaith y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol ar eu cyfer ac er ei fod wedi nodi'n gywir y gallai buddsoddiad o'r fath ymwneud â phrosiectau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru, mae hon yn farn gul am gymhwysedd deddfwriaethol.
45. Fel uchod, mae'n bwysig nodi bod gan y Bil rychwant i'r DU gyfan (yn unol â chymal 11(1) o'r Bil) ac er bod y Banc, sydd ym mherchnogaeth lwyr Trysorlys EM, yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â Chymru, at ddibenion penderfynu a oes angen cydsyniad ar gyfer y Bil, y cwestiwn y mae rhaid i'r dadansoddiad ei ystyried mewn perthynas â phob cymal o'r Bil yw a allai'r Senedd ddeddfu i wneud yr un peth neu rywbeth tebyg mewn perthynas â Chymru. Felly, y cwestiwn yr ydym wedi'i ofyn yn ein dadansoddiad yw a allai'r Senedd ddeddfu gyda rychwant i Gymru a Lloegr a chais gan Gymru i gyflawni'r un peth neu rywbeth tebyg i'r mesurau a nodir yn y Bil hwn, boed hynny drwy sefydlu cwmni yn gyntaf (h.y. yn y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu'r Banc), neu drwy ddefnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes, i ddarparu cymorth ariannol, benthyciadau, cyngor a chymorth etc., gyda'r amcanion o (a) mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a (b) cefnogi twf economaidd, gan gynnwys ar lefel ranbarthol neu leol mewn perthynas â Chymru. Nid yw'n glir a yw Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys wedi mabwysiadu'r dull hwn ac mae'n bosibl ei fod wedi mynd ati o ran ei ddadansoddiad o gyfeiriad gwahanol.
46. Gan droi at y cymalau nad yw Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys yn credu eu bod o fewn cymhwysedd, rydym yn gwneud y sylwadau canlynol:
- a) Cymalau 1 ac 11 – nid yw'r cymalau hyn yn gymalau gweithredol (maent yn darparu'r diffiniad o'r Banc (cymal 1) a rychwant a theitl byr y Bil (cymal 11)) ac felly nid ydynt o fewn cymhwysedd na'r tu allan i gymhwysedd yn eu rhinwedd eu hunain gan eu bod yn ategol i'r Bil ehangach. Gan fod y Bil ei hun yn ymwneud â materion datganoledig, mae'n gywir trin cymalau 1 ac 11 fel rhai sydd 'o fewn cymhwysedd' at ddibenion penderfynu a oes angen cydsyniad.
  - b) Cymalau 6 a 7 – mae'r cymalau hyn yn ymdrin â llywodraethiant corfforaethol corff corfforedig sy'n bodoli eisoes ac felly (gan fod amcanion a gweithgareddau'r corff corfforedig a enwyd o fewn cymhwysedd) maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaethau a gofynion llywodraethiant corfforaethol o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu.
  - c) Cymal 9 - mae'r cymal hwn yn gosod gofyniad gweinyddol ar y banc ac ar Drysorlys Ei Mawrhydi ac mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaethau o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu ac ar

Weinidogion Cymru ynghylch cyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad a gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

## **Safbwynt Polisi Presennol Llywodraeth Cymru**

47. Datganoli yw ewyllys sefydlog etholwyr Cymru o hyd, a'n safbwynt ni yw diogelu pwerau'r Senedd, tra bo'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn bygwth cymwyseddau datganoledig. H.y., mae pwerau'n cael eu cadw yn ôl ar gyfer Gweinidogion y DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn modd sy'n tanseilio'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau y cafodd deddfwyr Cymru eu hethol i'w diogelu.
48. Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, tra'n cadw gweithgareddau penodol ar gyfer y Senedd, y Canghellor a Thrysorlys Ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru.
49. Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys i ddadlau bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau cyfatebol i bwerau ein cymheiriaid yn y DU. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru, h.y., "The Welsh Government must have an equal status to the UK Government's in governance of cross-border bodies with devolved functions which are established in UK Bills."
50. Mae cylch gwaith y Banc yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag ymagwedd bolisi Llywodraeth y DU at ag agenda Codi'r Gwastad. Rydym yn dal i bryderu ar lefel weithredol y gallai materion a ddangosir drwy ddadansoddiadau ar wahân o'r Gronfa Trefi, Cronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin - megis dyraniadau nad ydynt yn cyd-fynd â pholisi datganoledig, honiadau o ragfarn wleidyddol, y risg o werth gwael am arian - gael eu gwaethygu gan weithrediadau'r Banc. Mae angen cyfatebiaeth ymhlith gweinyddiaethau sy'n ymwneud â llywodraethu'r Banc er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar fuddiannau cyffredin.
51. Os yw'r Banc am weithredu fel benthyciwr i Awdurdodau Lleol Cymru, o gofio'r trefniadau ariannu datganoledig, dylid nodi y bydd goblygiadau cytundebau o'r fath yn fater sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru.
52. Rwyf wedi ysgrifennu heddiw at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys i'w annog i ddiwygio'r Bil er mwyn galluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethiant i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol.

## **Goblygiadau ariannol**

53. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r memorandwm hwn.

## **Casgliad**

54. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer nifer o gymalau yn y Bil. Mae nifer o'r cymalau hyn o bryder cyfansoddiadol i Lywodraeth Cymru. Felly, er gwaethaf rhinweddau rhai o'r cymalau, mae safbwynt



terfynol Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid argymhell cydsyniad yn ddarostyngedig i ganlyniad trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno gwelliannau i'r Bil.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
**25 Mai 2022**